# TYSTIOLAETH LLYWODRAETHWYR CYMRU I'R PWYLLGOR MENTER A DYSGU AR WEITHREDIAD YR ARGYMHELLION AR GYLLIDO YSGOLION – ADRODDIAD DILYNOL

**IONAWR 2008**

***TYSTIOLAETH LLYWODRAETHWYR CYMRU I'R PWYLLGOR MENTER A DYSGU AR WEITHREDIAD YR ARGYMHELLION AR GYLLIDO YSGOLION – ADRODDIAD DILYNOL*.**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Llywodraethwyr Cymru'n croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ar weithrediad yr argymhellion yn 'Adroddiad ar Drefniadau Cyllido Ysgolion' y Pwyllgor ar Gyllido Ysgolion blaenorol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2006.

1.2 Tra bydd Llywodraethwyr Cymru yn mynd i'r afael â'r 5 cwestiwn yr awgrymir y dylid eu hystyried wrth baratoi ei dystiolaeth, hoffai Llywodraethwyr Cymru ddwyn i sylw'r Pwyllgor Menter a Dysgu y sylwadau penodol mewn perthynas â'r 27 o argymhellion yn adroddiad Mehefin 2006 y Pwyllgor Cyllido.

## 2. CWESTIWN 1 – TRYLOWYDER Y BROSES ARIANNU<br>CWESTIWN 2 – MYNEDIAD AT WYBODAETH A GAN GYNNWYS Y WYBODAETH AR Y WE

2.1 Mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol i argymhellion 4, 7, 8, 9,10,11,13 a 25 y Pwyllgor Cyllido.

2.2 Mae tystiolaeth anecdotaidd gan Gyrff Llywodraethu a llywodraethwyr unigol yn awgrymu nad yw nifer ohonynt yn deall y prosesau ynghlwm sut y caiff ysgolion eu cyllido ac nid ydynt chwaith yn gwybod sut i gael gafael ar y wybodaeth berthnasol. Efallai mai'r rheswm am hyn yw bod y wybodaeth sydd ar gael yn cael ei ddosbarthu'n wael, yn hytrach na bod y wybodaeth heb fod ar gael. Mae'r adroddiad ystadegol ar gyllidebau refeniw awdurdodau lleol wedi'i fireinio dros amser ac mae'n ddogfen sydd yn rhesymol ddarllenadwy. Mae Llywodraethwyr Cymru fodd bynnag yn bryderus, er ei bod wedi'i phostio ar wefan Llywodraeth y Cynulliad ac efallai ei fod yn cael ei rannu'n weithredol gydag Awdurdodau Lleol a chyrff addysgol cenedlaethol nad yw'r rhan fwyaf o gyrff llywodraethu ysgolion yn gwybod am ei fodolaeth.

2.3 Dylai'r adroddiad a'r ymateb perthnasol gan yr awdurdod lleol gael ei ystyried yn flynyddol gan pob fforwm cyllideb. Dylid anfon crynodeb o'r prif bwyntiau at bob corff llywodraethu a grŵp llywodraethwyr lleol gydag argymhelliad cryf y dylid ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer trafodaeth mewn cyfarfod dilynol. Byddai hyn yn diwallu dyheadau argymhellion 7 ac 8 o'r Pwyllgor Cyllido.

"**Y dylai Llywodraeth y Cynulliad beri iddi fod yn ofynnol i bob awdurdod lleol anfon crynodeb blynyddol o'r gyllideb i ysgolion yn eu hardal, yn dangos y ffactorau sydd wedi arwain at newidiadau yng nghyllidebau ysgolion."**

Ac

**"Y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau bod y crynodeb blynyddol o'r gyllideb yn gyson ar draws holl ffiniau llywodraeth leol a bod llwybrau archwilio clir a chyson yn cael eu sefydlu a'u monitro."**

2.4 Gan droi at gynnwys datganiadau cyllidebau a ffurflenni cyfrifo refeniw Adran 52 sydd yn dylanwadu ar gymharu cyllidebau awdurdodau lleol, mae angen rhagor o waith i wella cysondeb fel y rhagwelir gan y Pwyllgor Cyllido yn ei argymhellion 9 a 10.

**“Y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi un gyfres glir o ganllawiau i awdurdodau ynghylch paratoi datganiadau cyllideb Adran 52 er mwyn sicrhau bod yr adroddiadau yn gyson.”**

Ac

**“Wrth adolygu’r ffurflen gyfrifo’r cyfrif refeniw (“RA), y dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau ei bod yn dod yn haws cymharu ar draws yr holl awdurdodau gyfran yr arian addysg sy’n cael ei gwario’n uniongyrchol ar addysg a’r gyfran sy’n cael ei gwario ar wasanaethau canolog a gweinyddu.”**

Nodir, yn ei ymateb i’r argymhellion hyn bod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo ei hun i sefydlu gweithgor yn cynnwys swyddogion y Cynulliad a swyddogion Awdurdodau Lleol. Mae Llywodraethwyr Cymru’n credu y byddai hygrededd a chryfder y gweithgor yn cael ei gryfhau trwy gynnwys rhan ddeiliaid ac y byddai perthnasedd unrhyw ganllaw a gaiff ei gyhoeddi yn y dyfodol ei wella hefyd.

2.5 Mae cyfraniad rhan ddeiliaid yn cynrychioli llais llywodraethwyr ysgolion hefyd yn hanfodol os yw argymhelliad 11 o’r Pwyllgor Cyllid i’w gyflawni h.y.

**“Pa bynnag newidiadau eraill a wneir y dylai’r Llywodraeth weithio’n agos gyda llywodraeth leol i wella dealltwriaeth ysgolion o’r broses ariannau a’r ffrydiau ariannu.”**

2.6 Mae’n werth ail adrodd bod cyrff llywodraethu yn gyfrifol am reolaeth cyffredinol cyllidebau ysgolion ac felly dylent gael eu cynnwys yn yr un modd yn y gwelliant y cyfeirir ato uchod.

2.7 Dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried y fantais y gallai gwefan Llywodraethwyr Cymru ei gynnig o ran cyfathrebu’n effeithiol gyda llywodraethwyr ysgolion ledled Cymru.

2.8 Mae enghraifft penodol o anghysondeb wrth adrodd yn ymwneud â’r IBA sydd yn fesur pwysig y gall ysgolion ddal eu ALl i gyfrif trwyddo am lefel y cyllid a ddyrennir ar gyfer Addysg. Ond, nid yw’n ymddangos fel pe bai unrhyw ddiffiniad safonol ac felly mae’n bosibl gwneud gwelliant sylweddol yn lefel IBA trwy ddyfais cyfrifo. Mae hyn wedi’i gyflawni mewn ALl anhysbys trwy ddyrannu codiadau corfforaethol canolog oedd eisoes wedi cymryd i ystyriaeth ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol a chyfrifo penodol i ysgolion i’r gyllideb gwasanaeth Addysg. Er mwyn i’r IBA fod yn ddefnyddiol. Rhaid i bob ALl fabwysiadu ymagwedd gyson.

2.9 Tra ar bwnc cysondeb, mae Llywodraethwyr Cymru yn ymwybodol bod gweithgor Llywodraeth y Cynulliad wedi’i sefydlu 3 blynedd yn ôl i ystyried cynigion i weithredu Adrodd Ariannol Cyson yng Nghymru. Byddai CRF yn galluogi ysgolion i gymharu eu gwariant ar eitemau tebyg gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru (a Lloegr), er mwyn rheoli eu hadnoddau yn fwy effeithiol. Cynrychiolwyd Llywodraethwyr Cymru ar y gweithgor a gyfarfu 4 gwaith yn 2005, ond nid ers hynny. Mae Llywodraethwyr Cymru yn teimlo y dylid ailsefydlu’r grŵp hwn neu dylid ymestyn cylch gwaith y gweithgor y cyfeiriwyd ato uchod.

2.10 Byddai CFR hefyd yn galluogi cymariaethau mwy ystyrlon o wariant cyffredinol ar ysgolion yng Nghymru gyda Lloegr. Mae tystiolaeth wedi’i gyhoeddi sydd yn datgan bod cyllido Cymru fesul disgybl 8% yn is na Lloegr, ond mae Llywodraeth y Cynulliad yn dadlau’r ffigurau hynny. Mae Llywodraethwyr Cymru yn credu bod ffigurau dibynadwy yn hanfodol fel bod Addysg yn cael blaenoriaeth uwch.

2.11 Mae Llywodraethwyr Cymru yn credu y gallai tryloywder a rhannu gwybodaeth ystyrlon gael ei wella ar y lefel 'macro' h.y. gwariant llywodraeth ganolog a chenedlaethol ar addysg yng Nghymru. Derbynnir bod hwn yn faes dadleugar iawn ond byddai adroddiad ffeithiol yn olrhain y cyllid a dderbynnir trwy fformiwla Barnet ac yna gan y Cynulliad i ALI yn cael croeso mawr. Efallai y gellid gwneud hyn cyn yr adroddiad ystadegol cymharol a gyhoeddir bob blwyddyn ym mis Awst.

2.12 Byddai'n ddefnyddiol gwybod pa gynnydd a fu yn unol ag argymhelliad 4 y Pwyllgor Cyllido.

"**Er mwyn sicrau mwy o dryloywder a gwella'r gwaith o graffu ar y gyllideb, y dylai Llywodraeth y Cynulliad wneud trefniadau i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar y gyllideb ar gyfer cyllid llywodraeth leol fel rhan o'r weithdrefn o bennu'r gyllideb bob blwyddyn".**

A'r rhagolwg y bydd y sefyllfa yn haws o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

2.13 Ar y cyfan mae Llywodraethwyr Cymru yn croesawu 'Adolygiad Bramley' a gomisiynwyd gan Brifysgol Heriot-Watt i edrych ar ffactorau amddifadedd a phrinder a'u pwysedd. O fewn yr elfen addysg o'r fformiwla Asesiad Gwariant Safonol ac a allai'r fformiwla fod yn fwy mentrus.

2.14 Mae hefyd yn croesawu'r ymrwymiad i gyllidebu 3 blynedd ond mae'n teimlo y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried sefydlu isafswm cyllido sylfaenol cyffredin ar gyfer staffio, llety ac offer ysgolion. Mae Llywodraethwyr Cymru yn credu y dylid cael cyfle cyfartal o ran cyllido ac o ganlyniad cyfle addysgol i ddisgyblion waeth pa awdurdod y derbyniant eu haddysg ynddo.

2.15 Mae Llywodraethwyr Cymru yn credu yn gryf, os yw hyn yn golygu bod rhai Awdurdodau angen cyllid ychwanegol yna dylid ei ddarparu o 'dwf' yn y gyllideb ac nid trwy ailddosbarthu adnoddau sydd eisoes yn bodoli.

## 3. CWESTIWN 3 – CYLLID YCHWANEGOL

3.1 Mae Llywodraethwyr Cymru yn rhannu pryder y cyn Bwyllgor Cyllido Ysgolion ynglŷn â chyllido grant ac ychwanegol a argymhellir yn argymhellion 19-21 fel â ganlyn

**"Y dylai Llywodraeth y Cynulliad osgoi cyflwyno gweithredoedd polisi anghynaliadwy trwy raglenni grantiau penodol tymor byr ac y dylai geisio darparu arian tymor hirach (yn unol â'r cynigion ar gyfer cyllidebau tair blynedd) i alluogi gwell cynllunio ariannol gan ysgolion."**

Ac

**"Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau nad yw buddion cynlluniau grant a ffrydiau arian newydd yn cael eu peryglu gan ddulliau bidio biwrocrataidd a beichus."**

Ac

**"I helpu ysgolion i gynllunio, pan fo cynlluniau grant newydd yn cael eu cyflwyno, fod Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi adroddiad ar gynaliadwyedd y cynllun a strategaeth ymadael ar gyfer y cynllun, a hynny fel rhan o'r canllawiau i awdurdodau ar barhad cynlluniau."**

Tra y derbynnir nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn fwriadol yn cychwyn gweithrediadau polisi anghynaladwy trwy gyllid grant tymor byr, dyma yw'r canlyniad weithiau. Mae hefyd yn gallu amsugno grantiau tymor hirach i'r mecanwaith grant cefnogi sydd yn ô lei natur â fformiwla dyrannu gwahanol ac felly mecanwaith dosbarthu gwahanol e.e. cyllid blynyddoedd cynnar a lleihau maint dosbarthiadau.

3.2 Mae Llywodraethwyr Cymru yn falch o nodi bod y Protocol Grantiau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi'i adeiladu arno i sicrhau bod pob grant yn unol ag amcanion setliadau 3 blynedd llywodraeth leol o 2008-09.

## 4. <u>CWESTIWN 4 – BUDDSODDI MEWN ADEILADAU YSGOLION</u>

4.1 Gwnaeth y Pwyllgor Cyllido yr argymhelliad canlynol (26) ynglŷn ag adeiladau ysgolion.

**"Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ei gwneud yn ofynnol bod arian a ddyrennir i awdurdodau i ddibenion cyfalaf yn cael ei ddefnyddio'n llwyr fel gwariant cyfalaf ym maes addysg ac y dylai ystyried darparu adnoddau ychwanegol os yw'n dal i ymrwymo i'w nod o wneud pob ysgol yn addas i'w phwrpas erbyn 2010."**

4.2 Ar y cychwyn mae'n werth nodi y dryswch posibl all fodoli pan fo gwariant cyfalaf heb ei ddirprwyo yn cael ei gyflwyno i ddadl sydd yn ymwneud yn gyffredinol â chyllido refeniw dirprwyedig. Mae pethau'n dwysau oherwydd y gwahanol reolau sydd yn berthnasol i ysgolion gwirfoddol a sylfaen. Mae'n hen bryd paratoi papur briffio cenedlaethol cryno ar feini prawf a ffynonellau cyllido ar gyfer gwella adeiladau ysgolion. Ymddengys hefyd nad yw'r targed o ddwyn pob ysgol i safon boddhaol erbyn 2010 bellach yn gyraeddadwy.

4.3 Mae Llywodraethwyr Cymru yn credu y dylai pob ALl fod arolwg cynhwysfawr, cywir sy'n hawdd i'w gymharu o gyflwr stoc adeiladau eu hysgolion fel mater o frys, a chynllun rheoli asedau i ddilyn hynny.

4.4 Gyda'r rhain yn bodoli dylai Llywodraeth y Cynulliad fod mewn sefyllfa wedyn i gyfeirio, yn strategol, yr adnoddau cyfalaf mawr sydd ar gael tuag at yr angen mwyaf heb broses gwneud cais biwrocrataidd. Mae'r ymagwedd leol a darniog cyfredol o gyllido lleol lle mae mwyafrif awdurdodau yn cael trafferth i gael ysgol gynradd newydd heb sôn am ysgol uwchradd yn anghynaladwy. Gallai gweddill y cyllid refeniw a mân gyfalaf e.e. ar gyfer prosiectau dan £250,000 barhau i fod yn fater o benderfyniad lleol ond dylai fod yn orfodol i gael cynlluniau tryloyw wedi'u cytuno arnynt yn lleol gyda meini prawf, ar gyfer dyrannu. Mae Llywodraethwyr Cymru yn credu mai gwaith i'r Fforwm Cyllideb yw hyn.

4.5 Dylai'r holl gyllido fod yn destun adroddiad ystadegol blynyddol cyffelyb i'r un ar wariant refeniw.

## 5. <u>CWESTIWN 5 – FFORYMAU CYLLIDEBAU YSGOLION</u>

5.1 Pan maent wedi'u cyfansoddi yn gywir ac yn cael eu gwerthfawrogi gan yr Awdurdod Lleol a'i ran ddeiliaid gallant fod yn asiant newid pwerus. Yn anffodus nid yw hyn bob amser yn wir ac weithiau nid yw llywodraethwyr wedi'u cynrychioli'n llawn arnynt. Rydym eisoes wedi cyfeirio at fforymau cyllidebau a'u hystyriaeth o adroddiadau gwariant refeniw, a'u cyfraniad i gynlluniau dyrannu ar gyfer gwelliannau adeiladau lleol. Mewn perthynas ag argymhelliad 23 y Pwyllgor Cyllido.

**“Mae Llywodraeth y Cynulliad yn arfarnu swyddogaeth a chyfrifoldebau’r fforymau cyllideb ysgolion gyda’r nod o wella’r cyfathrebu rhwng awdurdodau ac ysgolion.”**

5.2 Nid yw Llywodraethwyr Cymru yn ymwybodol os oes gwerthusiad o’r fath wedi’i gynnal ac anogwn Llywodraeth y Cynulliad i chwilio yn agored am bartner allanol i gynnal yr adolygiad fel mater o frys. I orffen ar nodyn optimistaidd, rydym wedi cynnwys y farn anhysbys hon o weithrediad fforwm cyllideb.

**“Yn Awdurdod X, unwaith y sefydlodd y Fforwm ei hun a chael perthynas gyda ffigurau canolog yn y Cyngor, yn enwedig y Trysorydd, roeddem yn dechrau gweld manteision trwy newid ym mlaenoriaethau ariannol y Cyngor. Yn benodol gwelsom dwf mewn termau real yn y dyraniad i Addysg yn 2006/07 ac yn 2007/08 ac rydym wedi cael addewid y bydd hyn yn parhau yn 2008/09 er gwaethaf y setliad ariannol anodd. Rwy’n amau y buasai hyn wedi digwydd oni bai am y Fforwm.”**

## 6. <u>CYFFREDINOL</u>

6.1 Mae Llywodraethwyr Cymru hefyd eisiau dod â’r cynigion unfrydol canlynol a basiwyd yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mehefin 2007 i sylw’r Pwyllgor, er gwybodaeth.

6.2 **<u>Pwyllgor Ymgynghorol Llywodraethwyr Powys/Pwyllgor Gwasanaethau Llywodraethwyr Powys</u>**

Mae’r gynhadledd yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gyllido’r Cyfnod Sylfaen yn llawn yn unol â’r cyfraddau staff/disgyblion a argymhellir a sicrhau bod y cyllid wedi’i ddiogelu.

6.3 **<u>Ffederasiwn Gogledd Orllewin Cymru</u>**

Anogwn Llywodraeth y Cynulliad i ailstrwythuro eu rheolaeth o grantiau a chyllido ychwanegol i addysg er mwyn sicrhau bod:

- Grantiau i addysg wedi’u dylunio i gynnwys isafswm o gyfnod o dair blynedd o leiaf fel bod ysgolion yn gallu cynllunio yn ddoeth ac i bwrpas da dros gyfnod ystyrlon
- Holl gyllido ychwanegol yn cael ei ddosbarthu i ysgolion yn gynnar yn y flwyddyn ariannol a bod hysbysiad o’r dosbarthu hwnnw yn cael ei roi yn y flwyddyn ariannol flaenorol lle mae hynny’n bosibl.

6.4 **<u>Cymdeithas Llywodraethwyr Casnewydd</u>**

Mae Cymdeithas Casnewydd yn bryderus bod y ffaith bod arian wedi’i dynnu’n ôl o’R Gronfa Gwell Ysgolion ar gyfer Hyfforddiant i Lywodraethwyr ar adeg pan fo rhagor o gyfrifoldebau a gofynion yn cael eu gosod ar lywodraethwyr ac felly mae hyfforddiant yn hanfodol.

Mae Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion Casnewydd yn gofyn i’r cyllid gael ei ail gyflwyno ar yr amser cynharaf posibl a dim hwyrach na’r flwyddyn ariannol yn cychwyn 2008

Mae’r Gymdeithas yn meddwl nad yw Llywodraeth y Cynulliad, wrth dynnu’r cyllid hwn yn ôl, yn gwerthfawrogi y cyfraniad a wneir gan wirfoddolwyr di-dâl i reolaeth ysgolion.

Credwn fod hyn yn creu annifyrrwch a phroblemau pellach gyda phresenoldeb a recriwtio llywodraethwyr.

6.5 **<u>Cynnig a gynigiwyd gan y Swyddogion</u>**

Mae Llywodraethwyr Cymru yn annog Llywodraeth newydd y Cynulliad i edrych eto ar argymhellion Pwyllgor y Cynulliad ar Gyllido Ysgolion (Mehefin 2005) er mwyn darparu system fwy cyson a thecach o gyllido ar gyfer ysgolion ledled Cymru.